Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.13 Ariannu Lleol - Wrecsam

Lluniwyd y daflen hon i roi gwybodaeth am grantiau bach, sydd ar gael i grwpiau a mudiadau bach o fewn y sector gwirfoddol yn Wrecsam. Bwriedir y cofnodion ar y daflen fel canllaw cyffredinol, a bydd y cysylltiadau a roddir yn medru darparu gwybodaeth fwy manwl i chi.

Dylech ddarllen y daflen hon ynghyd â **7.4.1 Grantiau Bach** sy'n manylu ar y grantiau bach sydd ar gael ar sail ranbarthol neu Gymru gyfan.

Rhaglen Adnoddau a Gweithgareddau Cymunedol Wrecsam

Mae Rhaglen Gweithgareddau a Chyfleusterau Cymunedol Wrecsam yn helpu mudiadau cymunedol a gwirfoddol i ddarparu cyfleusterau neu i gyflawni gweithgareddau sy'n helpu cymunedau i adfywio.

Mae cyllid ar gael at gynlluniau cyfalafol yn unig fegis: creu adnoddau newydd, darparu toiledau ar gyfer yr anabl, gwelliannau i'r amgylchedd adeiledig neu naturiol, offer a ddarparir ar gyfer busnesau cymunedol/cymdeithasol.

Mae'r cynllun grantiau yn agoriad i grŵpiau gwirfoddol,grŵpiau cymunedol neu elusennau ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam ar yr amod:

- Bod ganddynt gyfansoddiad neu set o reolau a lofnodwyd neu a "fabwysiadwyd"
- Bod ganddynt polisi cyfleoedd cyfartal
- Bod ganddynt gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu
- Bod ganddynt cyfrifon blynyddol (wedi'u harchwilio neu'nlofnodi gan berson uwch yn grŵp).

Bydd y gynllun grantiau yn darparu grantiau o hyd at £4,000 am bob cais.

Asesir ceisiadau tair gwaith y flwyddyn, gan banel annibynnol lleol.

Cyswllt:
Swyddog Grantiau, Ty AVOW, 21 Stryt Egerton,
Wrecsam, LL11 1ND.
Ffôn: 01978 312556.
lynda.williams@avow.org

Chwaraeon Cymru - Grant Cist Gymunedol

Mae'r gist Gymunedol yn fenter Chwaraeon Cymru sy'n darparu cronfa arian ar gyfer chwaraeon cymunedol a gweithgareddau corfforol. Dan y canllawiau newydd, cynyddwyd uchafswm y grant i £1,500,
Gellir defnyddio'r grant i gefnogi pethau eraill sy'n:

- Annog mwy o bobl i fod yn fywiog
- Codi safonau gweithgareddau presennol
- Annog cyfranogiad mewn chwaraeon i weithgareddau ymarferol
- Annog cyfranogiad drwy oes mewn gweithgaredd cynaliadwy
- Annog partneriaethau gydag asiantaethau eraill

Cyswllt:
Sports Development, Waterworld, Holt Road, Wrecsam LL13 8DH
Ffôn: 01978 297359
www.wrexham.gov.uk/english/leisure_tourism/sports_development/sportlot/sportlot.htm

Neu Chwaraeon Cymru
Ffôn: 0845 045 0904
www.sportwales.org.uk/cartref.aspx?lang=cy&

Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf

Nod Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf yw cefnogi unrhyw fath o weithgaredd sy'n cynnwys pobl leol, drwy sefydliadau cymunedol bychain sy'n rhoi budd i'r gymuned. Croesewir ceisiadau gan ystod o brosiectau cymunedol gan gynnwys cerddoriaeth a'r celfyddydau. Rhaid i'r gweithgareddau roi rhyw gymaint o fudd economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol neu ddiwylliannol i bobl sy'n byw yn un o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Nid oes isafswm ond £5,000 yw'r swm mwyaf y gallwch wneud cais amdano. Gellir cyflwyno ceisiadau i Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf erbyn 30 Tachwedd 2011 a phrosesir hwy ar sail y cyntaf i'r felin.

Y wardiau cymwys yn ardal Wrecsam yw: Plas Madoc, Queensway, Hermitage 2, Parc Caia a Gwenfro

Cyswllt:
Lein Gymorth Cymunedau yn Gyntaf
Ffôn: 0800 587 8898
help@wcva.org.uk

Grantiau Pobl Ifanc GwirVol

Mae gan Ganolfan Wirfoddoli Wrecsam gyllid hyd at £500 ar gael drwy Gynllun Grantiau Pobl Ifanc GwirVol i bobl ifanc rhwng 16-25 oed sydd â diddordeb mewn trefnu prosiect gwirfoddoli gan bobl ifanc a fyddai o fudd i'w cymuned leol.

Cyswllt:
Lynsey Edwards, Swyddog Gwirfoddoli Pobl Ifanc AVOW
Ffôn: 01978 312556
lynsey.edwards@avow.org

Sefydliad Morgan

Mae Sefydliad Morgan yn arbenigo mewn cefnogi mudiadau bach a chanolig lleol sydd a'u gwaith yn canolbwyntio ar blant, teuluoedd, rhai dan anfantais a rhai anabl. Rhaid i unrhyw waith gael effaith bositif ar les ac ansawdd bywyd, neu ystyrir gwaith sy'n ehangu cyfloed a dewis bywyd i bobl yn yr ardal. Maent yn arbennig o awyddus i gefnogi rhai sydd eisoes wedi dechrau gwneud gwahaniaeth, ond sydd angen cymorth i ymestyn eu gwaith ac i ehangu eu heffeithiolrwydd.

Ystyrir grantiau ar gyfer ystod o bwrpasau a hyd yn hyn mae meysydd a dderbyniodd gefnogaeth wedi cynnwys:

- anableddau corfforol a dysgu,
- iechyd meddwl a chorfforol, a her
- amddifadiad cymdeithasol.

Ceir rhagor o wybodaeth am eu polisi cyllido ar eu gwefan, a rhoddir esiamplau o'r math o brosiectau a gefnogir hyd yn hyn. Mae croeso i chi gysylltu â nhw drwy ffonio cyn cyflwyno eich cais, yn enwedig os ydych yn ansicr am eich cymhwysedd neu os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd o'r cais.

Cyswllt:

Jane Harris (Gweinydd), Ymddiriedolaeth Morgan, Blwch Post 3517
Caer, CH1 9ET
Ffôn: 01829 782800
Ffacs: 01829 782223
contact@morganfoundation.co.uk
www.morganfoundation.co.uk

WREN (Ailgylchu Gwastraff Amgylcheddol Cyf.)

Mae WREN yn rhoi cyllid i brosiectau sy'n creu, gwella neu'n gofalu am gyfleusterau cymunedol. Mae'n gweithredu dan y Gronfa Cymunedau Tirlenwi.

Mae cyllid ar gael ar gyfer cyfleusterau cymunedol a meysydd chwarae, adnewyddu neu gwella adeiladau, cadwraeth, datblygu'r amgylchedd a bioamrywiaeth, a gwirfoddoli ieuenctid.

Cynllun Grantiau Bychain WREN
£2,000 - £15,000
Ffrwd gyllido newydd yw hon sy'n rhoi cyllid i brosiectau bychain. Ni ddylai cyfanswm cost y prosiect fod yn fwy na £50,000

Cynllun Prif Grant WREN
Rhwng £2,000 a £50,000

Caiff bob cais i WREN eu harolygu gan Banel Cynghori o wirfoddolwyr lleol. Maent yn gwybod beth yw anghenion a gofynion eich ardal chi a'r hyn sydd ei hangen ar raddfa ranbarthol.
Rhaid i bob prosiect gael ei leoli mewn ardal y mae WREN yn gweithredu ynddi, a bod ar gael i'r cyhoedd – ymwelwch â'n gwefan am gyngor neu cysylltwch â staff WREN.

Sut i wneud cais:
www.wren.org.uk/how-to-apply

Cyswllt:
Meleri Jones, Rheolwraig Prosiectau Cymru
Ffôn : 01248 674907
meleri.jones@wren.org.uk
www.wren.org.uk

Cronfa Deddfau Eglwysi Cymru

Mae'r gronfa flynyddol hon yn cael ei defnyddio i roi cymorth ariannol i fudiadau yn ardal Bwrdeistref Sirol Wrecsam at bwrpas elusennol. Rhoddir blaenoriaeth i fudiadau sy'n cefnogi:

- Cyfleusterau Cymdeithasol a Hamdden
- Mannau Addoli a Mynwentydd
- Pobl Ddall a Phobl Oedrannus

Rhoddir grantiau am eitemau sydd o fudd parhaol, i fudiadau gyda chyfansoddiad priodol; ni fydd ymgeiswyr sydd wedi derbyn grant yn y ddwy flynedd diwethaf yn debygol o lwyddo eto. Nid oes grant ar gael ar gyfer costau rhedeg, apeliadau cyffredinol neu i dalu am geisiadau a wrthodwyd oherwydd prinder cyllid gan y cyngor. Y mwyaf sydd ar gael yw £500 a'r dyddiad cau yw'r 31 Gorffennaf pob blwyddyn.

Cyswllt:
Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Stryd y Lampint, Wrecsam, LL11 1AR
Ffôn: 01978 292716
www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/church_funds/church_acts_fund.htm

Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo

Mae'r Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo yn cefnogi mudiadau sy'n gweithredu i wella ansawdd bywyd o fewn cymunedau meysydd glo. Ei amcan yw gwneud meysydd glo yn hunangynhaliol i weithio tuag at y nod ble gallant fod yn ffyniannus, hyfyw ac yn gydlynol heb gefnogaeth. Eu hardaloedd cefnogaeth yw:

- Mynediad I Gyflogaeth, prosiectau sy'n cysylltu pobl gyda chyfleoedd prif ffrwd yn hytrach nag creu swyddi.
- Addysg a Sgiliau, prosiectau'n darparu gwerth ychwanegol a llenwi gwagleoedd, nid darpariaeth prif ffrwd statudol.
- Iechyd a Lles, camau ataliol a chefnogaeth ffordd iach o fyw.
- Mynediad I Gyfleoedd, mynediad cyfartal i wasanaethau a materion trafnidiaeth leol.

Mae ganddynt ddau grant lleol, gyda'r ddau o fewn blaenoriaethau allweddol:

Prif Grantiau. Mae grantiau'n amrywio rhwng £300 a £300,000 a gallant fod at ddibenion cyfalaf a refeniw, gan gynnwys cyflogau. Byddant yn ariannu prosiectau hyd at dair blynedd.

Pontio'r Bwlch Grantiau rhwng £500 a £10,000 ar gael, ond rhaid i brosiectau gael eu cwblhau o fewn 12 mis. Gall gweithgareddau cymwys gynnwys: datblygu neu wella mudiadau neu grwpiau; datblygu neu wella gweithgaredd, adnodd neu wasanaeth presennol; a datblygu gweithgaredd newydd, adnodd neu wasanaeth.

Gall gyllid y Prif Grantiau a Phontio'r Bwlch dalu am hyd at 100% o'r cyllid y prosiect. Yn Wrecsam, rhaid i ymgeiswyr fod wedi eu lleol yn, neu yn gweithredu er budd cymunedau yn y wardiau Wrecsam Maelor canlynol: Mwynglawdd, Penycae, Ponciau, Esclusham gan gynnwys Rhostyllen, y Bers, Aberoer, Legacy, Pentre Bychan a Branwylfa.

Cyswllt:
Sian Sykes**,** Rheolwr Gweithredu
Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo, Uned 7,
Swyddfa Forwrol, Rhes Woodland, Maes-y-Coed, Pontypridd
Rhondda Cynon Taff, CF37 1DZ.
Ffôn: 01443 404455
sian.richards@coalfields-regen.org.uk
www.coalfields-regen.org.uk

Cist Gymunedol Clwyd

Mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych [CGGSDd] yn gweinyddu cynllun grantiau a benthyciadau “Cist Gymunedol Clwyd” ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol sydd yn gweithredu o fewn y cyn Sir Clwyd.

Mae grantiau hyd at £250 a benthyciadau hyd at £2,000 ar gael i fudiadau a grwpiau [sydd yn elusennau cofrestredig neu'n ymgymryd ag amcanion elusennol] sydd yn gweithio gyda:

- Pobl hŷn
- Pobl gydag anableddau corfforol
- Pobl gydag anableddau dysgu
- Pobl gyda phroblemau iechyd meddwl
- Plant o dan anfantais
- Adnoddau chwarae a hamdden i blant
- Pobl ddi-waith sydd yn ymgymryd â gwaith gwirfoddol
- Cynnal a chadw neuaddau pentref
- Gweithgareddau amgylcheddol
- Gweithgareddau diwylliannol

Grantiau
Mae grantiau o hyd at £250 ar gael i brynu eitemau o offer ac/neu gostau rhedeg.

Benthyciadau
Mae benthyciadau o hyd at £2,000 ar gael.

Cyswllt:
Cist Gymunedol Clwyd, d/o Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd), Canolfan Naylor Leyland, Stryd y Ffynnon, Rhuthun
Sir Ddinbych, LL15 1AF
Ffôn: 01824 702441,
office@dvsc.co.uk
www.dvsc.co.uk

Grantiau Cynaladwyedd Cymorth

Mae'r cyllid ar gael I sefydlu, cynnal neu ymestyn darpariaethau gofal plant o ansawdd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae Gwarchodwyr plant, clybiau y tu allan i oriau ysgol, cylchoedd chwarae gan gynnwys Cylch Meithrin Mwy a Meithrinfeydd Dydd Preifat yn gynwys i wneud cais.

Gellir defnyddio grantiau i:

- Gofynion iechyd a diogelwch i fodloni safonau gofynnol cenedlaethol AGGCC.
- Offer sy'n cyfoethogi profiadau'r plentyn yn yr uned ac sy'n hybucynhwysiad plant ag anghenion arbennig

- Costau refeniw e.e. cyflogau, rhent, biliau gwasanaethau cyhoeddus
- Hyfforddiant sydd ei angen i barhau i weithio â phlant

Nid yw'r swm a roddir yn debygol o fod yn fwy na £400. Rhoddir blaenoriaeth i unedau gofal plant yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf neu unrhyw ardaloedd eraill lle mae unedau'n bodloni anghenion y gymuned ac mewn perygl difrifol o gau.

Cyswllt:
Lynne Mort, Canolfan Gwybodaeth am Blant
Ffôn: 01978 298343/ 01978 292094
lynne.mort@wrexham.gov.uk

Cronfa Gymunedol Cemex

Mae Cronfa Gymunedol Cemex yn rhoi grantiau o'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi, i brosiectau sy'n darparu a chynnal cyfleusterau a mwynderau cymunedol yng nghyffiniau safle CEMEX. Mae grantiau rhwng £1,000 a £15,000 ar gael i brosiectau sydd:

- yn darparu a chynnal parciau a mwynderau cyhoeddus lle mae'r gwaith yn gwarchod yr amgylchedd cymdeithasol, adeiledig a / neu naturiol
- yn trwsio neu adfer adeiladau neu strwythurau eraill sydd o ddiddordeb crefyddol, hanesyddol neu bensaernïol

Mae dau gam i'r broses o wneud cais, ac mae ceisiadau'n cael eu hystyried pob chwarter. Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sydd o fewn radiws o dair milltir i safleoedd tirlenwi a chwarel CEMEX. Y ddau safle sydd ganddynt yn ardal Wrecsam yw: Gwaith Wrecsam Plant, Stâd Ddiwydiannol Rhosddu, a Chwarel Ballswood, Gegin Lane, Llay.

Cyswllt:
Cemex Community Fund ,PO Box 53978, London, SW15 1UU
cemexcf@yahoo.co.uk

Cronfa Neuaddau Pentref

Mae'r gronfa Grantiau ar gyfer Neuaddau Pentref gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gronfa flynyddol, gyda cheisiadau'n cael eu hystyried unwaith y flwyddyn. Gellir defnyddio grantiau rhwng £250 a £2,500 ar y mwyaf i dalu am offer, eitemau o fudd parhaol (e.e. mesurau arbed ynni) ac i drwsio adeiladau. Ni ellir dyfarnu arian i dalu costau staffio nac apeliadau/nawdd cyffredinol.

Rhaid i geisiadau gael eu cyflwyno gan bwyllgorau / ymddiriedolwyr rheoli o gyfansoddiad priodol sy'n gweinyddu neuaddau pentref ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae neuaddau tref neu neuaddau pentref yn gymwys i wneud cais. Caiff neuaddau eglwys a mannau cyfarfod eraill eu hystyried, cyn belled a bo dim neuaddau pentref neu ganolfannau cymunedol eraill yn y gymuned honno,

Cyswllt:
Lynn Jones, Swyddog Canolfan Cymunedol
Ffôn: 01978 297443
www.wrexham.gov.uk/welsh/leisure_tourism_w/grants/index.htm

Cory Environmental Trust

Mae Cory Environmental Trust yn dosbarthu grantiau o dan Amcanion D, DA ac E y Gronfa.

- Amcan D: I wella mwynderau neu gyfleusterau cymunedol, er mwyn darparu gweithgaredd hamdden neu adloniant, e.e. mannau chwarae, neuaddau pentref, parciau cyhoeddus, gwarchodfeydd natur, parciau sglefrio, canolfannau croeso ac ati. Rhaid i'r cyfleusterau roi mynediad llawn i'r cyhoedd.
- Amcan DA: Ar gyfer cadwraeth rhywogaethau neu gynefinoedd penodol sydd wedi eu rhestru yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.
- Amcan E:I gynnal, trwsio neu adfer mannau addoli neu adeiladau neu strwythurau hanesyddol a rhestredig.

Rhaid i brosiectau gael eu lleoli o fewn 10 milltir i safle tirlenwi Hafod, Johnstown. Gall ymgeiswyr cymwys fod yn elusennau, grwpiau gwirfoddol a cymunedol, a mudiadau amgylcheddol, mudiadau wedi eu cyfansoddi ac nad
ydynt yn gweithredu i wneud elw, awdurdodau lleol a hyd yn oed cyrff llywodraethol.

Cyswllt:
Angela Haymonds
Ffôn: 01753 582513
ajhaymonds@cetbritain.freeserve.co.uk
www.coryenvironmental.co.uk/page/cetbhompage.htm

Cynllun Grantiau Bach Canol Wrecsam

Mae Cynllun Grantiau Bach Canol Wrecsam wedi ei anelu at grwpiau cymunedol bach gyda phrosiectau sy'n dod â phobl leol at ei gilydd ac yn eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Gall y grantiau o hyd at £250 gael eu defnyddio at ystod eang o ddibenion, gan gynnwys: offer newydd, costau cynnal, hurio ystafell, cyhoeddusrwydd a hyrwyddo, cynnal digwyddiadau, sefydlu grwpiau newydd, gwaith cynnal a chadw bach i leoliad cymunedol, hyd yn oed ar gyfer arian cyfatebol er mwyn denu grantiau mwy o ffynonellau eraill.

Er mwyn bod yn gymwys am grant, rhaid i grwpiau fod wedi eu lleoli yn yr ardaloedd penodol: Acton, Parc Caia, Hightown neu Rhosddu.

Yn ogystal â chyllid, mae cymorth a chefnogaeth wrth sefydlu grwpiau cymunedol newydd ar gael gan Dîm Datblygu Cymunedol Canol Wrecsam.

Cyswllt:
Tîm Datblygu Cymunedol, Datblygu Economaidd ,Stryd y Lampint
Wrecsam, LL11 1AR
Ffôn: 01978 292542
nicola.millar@wrexham.gov.uk

Cynllun Grantiau Bach De Wrecsam

Mae Cynllun Grantiau Bach De Wrecsam wedi ei anelu at grwpiau cymunedol bach gyda phrosiectau sy'n dod phobl leol at ei gilydd ac yn eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Gall y grantiau o hyd at £250 gael eu defnyddio at ystod eang o ddibenion, gan gynnwys: offer newydd, costau cynnal, hurio ystafell, cyhoeddusrwydd a hyrwyddo, cynnal digwyddiadau, sefydlu grwpiau newydd, gwaith cynnal a chadw bach i leoliad cymunedol, hyd yn oed ar gyfer arian cyfatebol er mwyn denu grantiau mwy o ffynonellau eraill.

Er mwyn bod yn gymwys am grant, rhaid i grwpiau fod wedi eu lleoli yn yr ardaloedd penodol: Acrefair, Cefn Mawr, Y Waun, Johnstown, Newbridge, Pant, Penycae, Plas Madoc, Ponciau, Rhosymedre a Rhiwabon.

Yn ogystal chyllid, mae cymorth a chefnogaeth wrth sefydlu grwpiau cymunedol newydd ar gael gan Dîm Datblygu Cymunedol De Wrecsam.

Cyswllt:
Steve Robinson, Tîm Datblygu Cymunedol,
Bersham Enterprise Centre, Plas Grono Road, Rhostyllen, Wrecsam, LL14 4EG
Ffôn: 01978 298331
steve.robinson@wrexham.gov.uk

Cynllun Grantiau Bach Partneriaeth Gorllewin Wrecsam

Mae Cynllun Grantiau Bach Gorllewin Wrecsam wedi ei anelu at grwpiau cymunedol bach gyda phrosiectau sy'n dod a phobl leol at ei gilydd ac yn eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Gall y grantiau o hyd at £250 gael eu defnyddio at ystod eang o bwrpasau, gan gynnwys: offer newydd, costau cynnal, hurio ystafell, cyhoeddusrwydd, cynnal digwyddiadau, sefydlu grwpiau newydd, gwaith cynnal a chadw bach i leoliad cymunedol, hyd yn oed ar gyfer arian cyfatebol er mwyn denu grantiau mwy o ffynonellau eraill.

Er mwyn bod yn gymwys am grant, rhaid i grwpiau fod wedi eu lleoli yn yr ardaloedd penodol: Coedpoeth, Gwersyllt, Brymbo, Rhosrobin, Bradle, Brynteg, Moss, Brynhyfryd, Pentre Broughton, Southsea, Lodge, Llai, New Broughton, Tanyfron, Caergo a Pandy.

Yn ategol at gyllid, mae cymorth a chefnogaeth wrth gynnal grwpiau cymunedol newydd ar gael o Dîm Datblygu Cymunedol Gorllewin Wrecsam.

Cyswllt:
Community Development Team, Plas Pentwyn, Castle Road, Coedpoeth, LL11 3NA
Ffôn: 01978 722995
joanne.pugh@wrexham.gov.uk

Symud Ymlaen Wrecsam

Mae Symud Ymlaen Wrecsam yn rhoi grantiau unwaith yn unig i helpu pobl ifanc i symud ymlaen gyda gwaith, addysg, hyfforddiant neu i wirfoddoli ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae grantiau hyd at £250 ar gael i bobl ifanc mewn angen, i brynu pethau fydd yn eu helpu i oresgyn rhwystrau i symud ymlaen, fel: dillad ar gyfer cyfweliad, adnoddau hyfforddi, offer, llyfrau a deunyddiau astudio. Rhoddir blaenoriaeth i bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed, sydd yn:

- Ddi-waith
- Troseddwyr
- Digartref / mewn tai lle maen nhw'n agored i niwed
- Rhieni sengl

Rhaid i'r ymgeiswyr fod naill ai'n byw ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam neu'n gyflogedig / cymryd rhan mewn naill ai hyfforddiant, gwirfoddoli, addysg ysgol neu goleg ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Bydd y grantiau gan Symud Ymlaen Wrecsam yn cael eu talu naill ai fel talebau siop i brynu nwyddau mewn siopau lleol; neu fel sieciau i weithiwr cefnogi penodol mewn mudiad gwirfoddol, coleg neu sefydliad hyfforddi. Nid oes dyddiad cau ond mae'r arian yn brin a'r cyntaf i'r felin fydd yn elwa.

Cyswllt:
Moving On Wrexham, PO Box 3604, Caer CH1 9JY

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.